CYFARFOD COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU A GYNHALIWYD 27 EBRILL 2006 YN NHŶ CARADOG, CAERDYDD

Comisiynwyr	Ysgrifenyddiaeth
Mrs. S G Smith (Cadeirydd)	Mr. E H Lewis (Ysgrifennydd)
Mr. J E Davies (Dirprwy Gadeirydd)	Mr. S R Halsall
Mr. D H Roberts (Aelod)	Mr. D Carr

1. DATGANIAD BUDDIANNAU

1.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau newydd.

2. COFNODION CYFARFOD Y COMISIWN A GYNHALIWYD 7 CHWEFROR 2006

2.1 Cytunwyd ar y rhain.

3. MATERION YN CODI

3.1 Materion yn ymwneud â Merlin

3.1.1 Roedd rhai mân faterion mewn perthynas â gwifrio yn y brif swyddfa heb eu cwblhau o hyd. Roedd trafodaethau â Merlin ynglŷn â'r materion hyn yn parhau.

3.2 Meddalwedd Cyfrifo

3.2.1 Nid oedd Merlin wedi datrys gosod y meddalwedd cyfrifo ar weinydd y Comisiwn. Er y nodwyd fod y meddalwedd cyfrifo yn gweithio ac y gellid cadw data ar y gweinydd, cytunwyd i barhau mynd ar drywydd Merlin i weld a fyddai'n bosibl gosod y rhaglen gyfan ar y gweinydd.

3.3 Datganiadau Rheoli a Memorandwm Ariannol (DRhMA)

3.3.1 Adroddwyd bod y DRhMA gyda Swyddfa Gydymffurfiaeth y Cynulliad o hyd yn aros am gyngor cyfreithiol.

3.4 Penodi Comisiynwyr

3.4.1 Nodwyd fod angen am asesiadau cyfoes ar gyfer y Dirprwy Gadeirydd ac Aelod o hyd.

3.5 Cynllun Gweithredol 2006-07

3.5.1 **Cytunwyd** y byddai'r Cynllun Gweithredol diwygiedig yn cael ei ddosbarthu i Aelodau.

4. AROLYGON CYMUNEDOL

4.1 Dywedodd yr Ysgrifennydd ei fod wedi anfon llythyr i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) yn gofyn am gyfarfod i drafod yr arolygon cymunedol. Derbyniwyd llythyr cydnabyddiaeth ond ni chytunwyd ar ddyddiad i gynnal y cyfarfod.

4.2 Amlinellodd yr Ysgrifennydd y sefyllfa ddiweddaraf ynglŷn ag arolygon cymunedol:

- Roedd Rhondda Cynon Taf wedi nodi amryw anghysondeb a byddent yn gofyn i'r Cynulliad roi cyfarwyddiadau i'r Comisiwn yn fuan;
- Roedd Sir Ddinbych yn mynd i gynnal arolwg cymunedol heb gymorth o'r Rhyl. Fodd bynnag, roedd yr Ysgrifenyddiaeth wedi canfod fod yr arolwg hwn yn arolwg o drefniadau etholiadol cymunedol ac nid yn arolwg o'r ffin;
- Roedd Conwy wrthi'n gwneud cais i'r Cynulliad roi cyfarwyddiadau i'r Comisiwn;
- Roedd Gwynedd yn ystyried rhai materion lleol ond ni chafwyd arwydd o unrhyw beth mwy sylweddol oddi wrthynt;
- Roedd Sir Benfro yn parhau i roi ystyriaeth i'w gofynion posibl;
- Roedd Tor-faen wedi nodi amryw anghysondeb ac yn ystyried sut i barhau yn hyn o beth;
- Roedd Powys wedi cwblhau cam cychwynnol eu harolygon;
- Roedd Ynys Môn wedi ysgrifennu i'r Cynulliad i'w hysbysu eu bod am gynnal arolwg cymunedol;
- Roedd Caerffili wedi nodi amryw anghysondeb ac yn ystyried sut i barhau yn hyn o beth; yn ogystal bu newidiadau yn y gorffennol i gymunedau yn ardal y Cyngor ac ni roddwyd gwybodaeth amdanynt i'r Comisiwn. Roedd manylion y newidiadau hyn yn cael eu rhoi i'r Comisiwn gan y Cyngor; a
- Drafftiwyd a chyhoeddwyd cyfarwyddyd i Wrecsam gan y Cynulliad Cenedlaethol.

4.3 Adroddwyd bod y Cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol i'r Comisiwn ar gyfer Wrecsam yn anghyflawn gan nad oedd yn enwi'r cymunedau a oedd yn ffinio â'r rheiny a oedd yn cael eu harolygu. Yn dilyn cyngor cyfreithiol, daeth yr Ysgrifenyddiaeth i'r casgliad fod y cyfarwyddiadau'n annigonol ar gyfer cwmpas bwriadedig yr arolwg. Roedd trafodaethau'n parhau ar hyn o bryd rhwng yr Ysgrifenyddiaeth, y Cynulliad Cenedlaethol a Chyngor Wrecsam.

5. COFNODION CYFARFOD RHWNG COMISIYNAU

5.1 Nododd y Comisiwn gofnodion y cyfarfod blynyddol rhwng comisiynau a gynhaliwyd ar 17 Mawrth 2006. Adroddwyd bod y cyfarfod wedi bod yn ddefnyddiol o ran cael y wybodaeth ddiweddaraf am waith a chynnydd y gwahanol gomisiynau ffiniau seneddol a llywodraeth leol yn y DU.

6. Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM AELODAU STAFF

6.1 Adroddodd yr Ysgrifennydd y byddai Liza Brough yn dechrau yn ei swydd fel Rheolwr Caffael ar 2 Mai 2006. Yn ogystal, mae'n bosibl y cafwyd ymgeisydd ar gyfer y swydd cefnogaeth tîm ychwanegol. Nododd y Comisiwn y datblygiadau hyn.

7. COMISIWN FFINIAU CYMRU

7.1 Adroddodd yr Ysgrifennydd y cynhaliwyd cyfarfod yng Nghaeredin rhwng ysgrifenyddion y comisiynau ffiniau seneddol ar 20 Ebrill 2006. Byddai angen i'r Adran Materion Cyfansoddiadol benodi Dirprwy Gadeirydd ac Aelodau i Gomisiwn Ffiniau Cymru ac anfonwyd llythyr mewn perthynas â'r sefyllfa hon at y Cadeirydd.

7.2 Gwahoddwyd Ysgrifenyddion y comisiynau ffiniau seneddol i gyfarfod gan Dr Butler a Dr Lean er mwyn trafod Ailddosbarthu a'r Comisiwn Etholiadol. Mae'r cyfarfod i'w gynnal yn Rhydychen ar 10 Mai 2006 a bydd Steve Halsall yn mynychu'r cyfarfod ar ran Comisiwn Ffiniau Cymru.

8. GWARIANT ARIAN PAROD CYMORTH GRANT

8.1 Nododd y Comisiwn y sefyllfa a bod ariannu Cyrff Cyhoeddus Anadrannol ar sail arian parod yn unol â chanllawiau Trysorlys EM. **Cytunwyd** i fabwysiadu polisi o gael cymorth grant ar sail arian parod yn y dyfodol.

9. YMGYNGHORI AR UNO BWRDD YR IAITH GYMRAEG Â LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

9.1 Nododd y Comisiwn yr adroddiad.

10. UNRHYW FATER ARALL

10.1 Cododd yr Ysgrifennydd y mater o geisiadau posibl am wybodaeth yn ymwneud ag arolygon o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Trafodwyd y mater hwn a **chytunwyd** y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn ymchwilio i bolisi ac arferion sefydliadau eraill ar gyfer delio â cheisiadau o'r fath am wybodaeth, ac yna yn adrodd yn ôl i'r Comisiwn.

10.2 Rhoddodd y Comisiwn ystyriaeth i ble yng Nghymru y byddent yn cynnal eu Cyfarfod Blynyddol Agored nesaf. **Cytunwyd** y byddai'r Trallwng yn lleoliad addas ar gyfer ei gynnal ac y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn chwilio am fan cyfarfod addas yn yr ardal. Pennwyd 10 ac 11 Hydref 2006 fel dyddiadau dros dro ar gyfer cynnal y Cyfarfod Blynyddol Agored.

11. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

11.1 Trefnwyd dyddiad y cyfarfod nesaf ar gyfer dydd Iau 29 Mehefin 2006.